



CYNLLUN PARHAD BUSNES

Allwch chi fforddio
dolen wan?



CLILC • WLGA

Cyhoeddwyd gan:
Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl Awdurdodau Lleol Cymru

Cymeradwyd gan:
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

CYFLWYNIAD

Ydych chi'n rhedeg eich busnes eich hun?

Ydych chi erioed wedi ystyried beth fyddai'n digwydd pe bai argyfwng yn codi yn eich busnes a fyddai'n amharu ar eich gallu chi i barhau i weithredu? **FYDDECH CHI'N GWYBOD BETH I'W WNEUD?**

Er bod hyn i'w weld yn annhebygol, mae'r pethau mwyaf annisgwyl yn gallu digwydd, a gallai eich ffordd chi o ymateb iddynt olygu'r gwahaniaeth rhwng cadw a cholli eich busnes.

WYDDECH CHI?

- Mae rhywbeth yn amharu ar bron i 1 ym mhob 5 busnes bob blwyddyn.
- Mae 80% o fusnesau sy'n cael eu taro gan ddigwyddiad mawr naill ai'n aros ar gau neu'n cau o fewn 18 mis
- Mae 90% o fusnesau sy'n colli data o ganlyniad i drychineb yn cael eu gorfodi i gau o fewn 2 flynedd.

Mae cynllunio parhad eich busnes yn golygu gwneud yn siŵr bod eich busnes chi'n barod pe bai rhywbeth annisgwyl yn digwydd. Bydd yn helpu sicrhau bod unrhyw ddigwyddiad yn tarfu cyn lleied ag sy'n bosib ar eich busnes, a'i fod yn parhau i weithredu yn ystod yr argyfwng a thu hwnt.

Bydd rheoli parhad eich busnes yn gadarn hefyd yn eich helpu i ymdopi ag argyfyngau llai neu amhariadau rydych chi wedi'u cynllunio, a'u hatal rhag datblygu'n argyfyngau na allwch chi mo'u rheoli.

Mae cynllunio parhad busnes yn bwysig i bawb, o'r busnesau lleiaf hyd at y cwmnïau amlwladol mwyaf.

Er bod angen rhoi ystyriaeth fanwl i'ch proses o gynllunio parhad eich busnes, nid yw'n beth anodd ei wneud ac nid oes angen iddo fod yn ddrud. Fodd bynnag, gall treulio amser yn gwneud hyn nawr atal amhariad rhag troi'n drychineb i'ch busnes.

Ar gyfer pwy mae'r llyfryn hwn?

Dylai pawb sydd â chyfrifoldeb neu ran mewn rheoli eich busnes ddarllen y llyfryn hwn. Fodd bynnag, wrth i ni fynd drwy'r broses o gynllunio parhad eich busnes, fe ddewch chi i weld pa mor bwysig yw hi i bob aelod staff fod yn ymwybodol o'r llyfryn hwn a'r cyngor sydd ynddo.

Y gobaith yw y bydd y wybodaeth hon yn eich arwain drwy'r camau allai helpu eich sefydliad oroesi amhariad. Nid yw'n bwnc cymhleth, ac nid oes rhaid iddo gymryd gormod o adnoddau nac amser.

AMDANOM NI

Cafodd y llyfryn cyngor hwn ei baratoi gan Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl Awdurdodau Lleol Cymru (GASPALIC) a'i gymeradwyo gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).




Mae GASPALIC yn cynrychioli pob awdurdod lleol ar hyd a lled Cymru ac yn cynnig fforwm ar gyfer datblygu a chynyddu cydweithio ar faterion argyfyngau sifil posibl o fewn llywodraeth leol. Mae'r grŵp yn annog ac yn hybu arferion da o ran cyflawni swyddogaethau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.



Mae CLILC yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru. Ei brif ddibenion yw hyrwyddo llywodraeth leol well, hyrwyddo ei enw da a chefnogi awdurdodau wrth ddatblygu polisiau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

CYNLLUNIO PARHAD BUSNES – Y BROSES

Mae'r broses o gynllunio parhad eich busnes yn cynnwys 4 cam allweddol fydd yn eich arwain o ddeall eich busnes, drwy adnabod y risgiau i'ch busnes, datblygu cynllun, a sicrhau yn y pen draw bod eich holl aelodau staff yn ymwybodol o unrhyw drefniadau drwy gynnal profion rheolaidd.



Lle i gychwyn?

Drwy ddarllen y llyfryn hwn rydych chi eisoes wedi dechrau ar y broses o gynllunio parhad eich busnes. Rydych chi wedi cydnabod pa mor bwysig yw'ch busnes ac y gallai peidio â chynllunio ar gyfer amhariadau ac argyfyngau fod yn drychinebus. Ar y gorau, rydych chi mewn perygl o golli cwsmeriaid tra bydd y busnes yn codi'n ôl ar ei draed. Ar y gwaethaf, gallai eich busnes fethu ailsefydlu ac fe allech chi orfod rhoi'r gorau i fasnachu.

O brofiad, mae sefydliadau sydd wedi ystyried sut y byddent yn delio â digwyddiad, ac wedi nodi eu syniadau ar bapur, yn fwy tebygol o aros mewn busnes ac adfer yn gyflym mewn achos o amhariad, na'r busnesau hynny sydd heb feddwl am hyn.

Gofynnwch i chi'ch hun a allai eich busnes barhau yn yr achosion canlynol:

- Colli pŵer am 24 awr?
- Colli pŵer am gyfnod estynedig?

neu

- Sut fyddai'ch busnes yn gweithredu heb gyfrifiaduron neu delathrebu am ddiwrnod, wythnos, mis?

- Pa rai o'ch gwasanaethau hanfodol chi fyddai mewn perygl pe bai'n rhaid i chi adael eich adeilad a pheidio mynd yn ôl yno am wythnos gyfan? Beth am fis?
- Faint o staff fyddai eu hangen i barhau i gyflawni tasgau hanfodol a lle fyddech chi'n eu lleoli nhw?
- Oes gennych chi adeilad arall y gallech chi weithio ynddo'n effeithiol? Fyddai hyn yn ddigonol? All aelodau staff weithio o'u cartrefi?
- Beth fyddai'n digwydd pe bai chwarter eich staff yn absennol oherwydd pandemig ffliw?
- Am faint o amser allech chi ymdopi heb feddalwedd neu offer swyddfa arbenigol a faint fyddai hi'n ei gymryd i chi adnewyddu'ch cyflenwadau?

DADANSODDI EICH BUSNES

Mae pob busnes a chwmni'n wahanol. Gallai hynny fod oherwydd eu maint, y cynhyrchion neu'r gwasanaeth y maent yn eu darparu, y prosesau y maent yn eu defnyddio ac ati.

Ond yr un peth sydd gan bob busnes yn gyffredin yw bod ganddynt swyddogaethau hanfodol sy'n gorfod parhau er mwyn i'r busnes weithredu'n effeithiol.

Y cam cyntaf yn unrhyw broses o gynllunio parhad eich busnes yw nodi eich swyddogaethau hanfodol er mwyn gwneud yn siŵr mai'r rhain fydd yn cael blaenoriaeth o ran eu hadfer pe bai'ch busnes yn cael ei amharu.

I wneud hyn, rhaid i chi fod â dealltwriaeth drylwyr o'ch busnes.

Y dull a gydnabyddir ar gyfer nodi eich swyddogaethau hanfodol yw cynnal Dadansoddiad o'r Effaith ar y Busnes (DEB).

Nod DEB yw nodi a chofnodi eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau allweddol, y gweithrediadau hanfodol y mae eu hangen i gyflawni'r rhain, yr effaith y byddai amhariad ar y gweithrediadau hyn yn ei gael ar eich busnes yn gyffredinol a pha adnoddau neu gamau y byddai eu hangen i gynnal neu adfer y gweithrediadau hyn yn ystod neu ar ôl amhariad neu argyfwng.

Does yna ddim methodoleg 'un dull addas i bawb' ar gyfer casglu data DEB. Mae'r dulliau'n amrywio o un busnes i'r llall. Mae gan bob busnes ei anghenion penodol ei hun o ran cynnwys, mathau o wybodaeth a chwmpas.

Ond dyma'r prif bynciau y dylai DEB eu trafod:

- Pa feysydd o'ch busnes chi yw'r mwyaf hanfodol?

› Pa mor gyflym y byddai colli swyddogaeth neu broses yn cael effaith niweidiol, gan gynnwys canfod y pwynt lle byddai amhariad yn achosi methiant eich busnes. Yr enw ar hyn yw'r Cyfnod Hiraf y gellir Goddef Amhariad.

› Pa gyfarpar, staff a systemau sy'n angenrheidiol i gynnal y swyddogaethau hanfodol hyn?

Dylech ystyried

› Asedau materol, gan gynnwys adeiladau, offer a pheiriannau a stoc;

› Prosesau, systemau a chyfathrebu;

› Systemau cyfrifiadurol a'r data a gedwir arnynt;

› Staff;

› Cwsmeriaid a chyflenwyr.

Cofiwch ystyried cytundebau gwasanaeth ac/neu rwymedigaethau cyfreithiol neu dan gontract fydd angen sylw brys.

Ar ôl i chi gwblhau'r cam hwn, bydd gennych chi ddarlun clir o wasanaethau hanfodol eich sefydliad o ran effaith bosib amhariad neu argyfwng, a gallwch symud ymlaen i'r cam nesaf.

ASESU'R RISG

Wrth ystyried y **RISGIAU** i'ch busnes, gallwch feddwl am y canlynol:

• Pa mor debygol yw hi y bydd argyfwng neu amhariad yn digwydd?

a

• Beth yw'r effeithiau posib pan fydd yn digwydd?

Er y dylech chi fod yn ymwybodol o'r annisgwyl, cofiwch nad yw pob argyfwng neu amhariad mor ddramatig â ffrwydrad neu dân neu lifogydd difrifol. Yr amhariadau mwyaf cyffredin ar fusnesau yn y DU yw byrst mewn pibell ddŵr, lladrad, fandaliaeth a digwyddiadau fel colli TG a phŵer.

Beth fyddai'n achosi amhariad?

Yn dibynnu ar amgylchiadau penodol eich busnes, mae yna nifer o ddigwyddiadau posib allai achosi amhariad:

Colli, neu amhariad sylweddol i eiddo

- Tân
- Llifogydd
- Colli cyfleustodau am gyfnod estynedig
- Tywydd eithafol
- Difrod i eiddo

Colli, neu amhariad sylweddol i Gyfleustodau/TG/Systemau Cyfathrebu

- Colli mynediad i'r gweinydd
- Colli pŵer
- Methiant TG/Cyfathrebu
- Seibr-ymosodiad
- Colli gwybodaeth

Colli staff

- Salwch ac absenoldeb
- Gweithredu diwydiannol
- Tywydd garw

Colli, neu amhariad sylweddol i ddarparwyr/cyflenwadau trydydd parti

- Methiant trydydd parti neu ddiffyg gweithdrefnau parhad busnes
- Cyflenwr yn mynd i law'r derbynydd
- Cyflenwr yn methu cyflawni contractau

Effaith ar enw da eich busnes

- Diffyg hyder ar ran y cyhoedd
- Sylw niweidiol yn y cyfryngau
- Torri cytundeb
- Methu cyflenwi gwasanaethau y cytunwyd arnynt

Mae deall yr amrywiaeth o risgiau allai effeithio eich busnes yn rhan hanfodol o'r broses o gynllunio parhad eich busnes. Er mwyn deall pa risgiau sydd fwyaf tebygol o ddigwydd ac a fyddai'n cael yr effaith fwyaf, efallai yr hoffech chi eu graddio nhw o'r isaf i'r uchaf un. Bydd hyn yn rhoi ffocws i chi sefydlu mesurau i liniaru yn erbyn eich risgiau uchaf.

Byddai arferion gorau hefyd yn awgrymu y dylech chi ystyried eich amgylchedd wrth edrych ar y risgiau. Beth sydd yn eich cymuned neu'ch ardal gyfagos allai achosi problemau, er enghraifft, ydych chi wedi'ch lleoli ger afon? Hefyd, a yw'ch busnes chi wedi'i leoli ger busnesau eraill neu safleoedd diwydiannol? Os ydyw, beth yw eu prosesau nhw ac a allai'r rhain gael effaith gynyddol pe bydden nhw'n cael argyfwng?

DATBLYGU CYNLLUN

Ar ôl cwblhau dau gam cyntaf y broses o gynllunio parhad eich busnes, rydych chi bellach yn barod i ddatblygu eich cynllun. Mae yna nifer o dempledi cynllun ar gael ar gyfer pob maint o fusnes, ond bydd cynllun sydd wedi'i baratoi'n ofalus yn helpu'ch busnes chi i ddelio ag unrhyw ddarpar amhariad neu argyfwng a lleihau eu heffaith.

Mantais arall cael cynllun sydd wedi'i ddatblygu'n dda yw y gall ddangos i'ch cwsmeriaid, eich yswirwyr a'ch buddsoddwyr bod eich busnes yn ddigon cadarn i ymdopi ag unrhyw beth a allai ei wynebu, a gallai hynny roi mantais i chi dros fusnesau eraill.

Allwch chi byth gynllunio ar gyfer pob digwyddiad posib, ond cofiwch y bydd rhaid i bobl ymateb yn gyflym mewn argyfwng, ac fe allai gorfod aros i ddarllen llwyth o wybodaeth wneud hynny'n anodd.

Felly does dim rhaid i'ch cynllun chi fod yn ddogfen gymhleth. Dylai fod mewn iaith syml, heb dermau technegol cyn belled ag y bo'n bosib, er mwyn i bawb sydd angen ei ddefnyddio allu ei ddeall yn hawdd.

Fan leiaf, dylai eich cynllun:

- Nodi pwy sy'n gyfrifol am roi'r cynllun ar waith (ystyriwch benodi dirprwyon);
- Amlinellu pwy fydd yn dod at ei gilydd i gychwyn y broses o ddelio â'r amhariad ac i wneud y penderfyniadau pwysig (ymhle fyddwch chi'n cyfarfod; trefnwch ddewis wrth gefn rhag ofn na allwch chi fynd at eich eiddo);
- Egluro beth y mae angen ei wneud, a phwy fydd yn

gwneud beth;

- Cynnwys crynodeb o'r swyddogaethau hanfodol a nodwyd i sicrhau ffocws cychwynnol;
- Cynnwys cyfarwyddiadau clir, uniongyrchol, yn enwedig ar gyfer yr oriau cyntaf hanfodol hynny yn syth ar ôl yr argyfwng neu amhariad;
- Gwneud yn siŵr fod mecanweithiau wedi'u sefydlu er mwyn i chi allu cadw mewn cysylltiad â'r unigolion hynny sy'n cymryd camau, a'r gwasanaethau brys neu'r darparwyr cyfleustodau (bydd hyn yn eich helpu i gadw rheolaeth gyffredinol o'r amhariad a'r camau sy'n cael eu cymryd);
- Nodi pa adnoddau sydd ar gael i gyflawni a chwblhau camau gweithredu;
- Amlinellu eich strategaeth gyfathrebu; pa negeseuon y byddwch chi'n eu cyfleu i'r cwsmeriaid a hyd yn oed y cyfryngau;
- Ystyried defnyddio rhestrau gwirio a chofnodion o gamau; a
- Rhestru rhifau cyswllt pwysig.

Pan fyddwch chi wedi cwblhau eich cynllun, mae'n bwysig eich bod yn gwneud yn siŵr fod pawb sydd â chyfrifoldeb yn y cynllun yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Gwnewch yn siŵr fod pawb sy'n rhan ohono'n deall y cynllun a'r rhannau y mae eraill yn ei chwarae wrth ei roi ar waith. Mae hefyd yn beth doeth cadw copïau o'r cynllun yn rhywle ar wahân i'r safle, a sicrhau bod gan yr unigolion sydd â chyfrifoldebau penodol eu copïau eu hunain.

YMARFER, PROFI A CHYFATHREBU

Dylai eich cynllun fod yn ddogfen fyw. Weithiau, wnewch chi ddim sylwi ar unrhyw wendid yn eich cynllun a'ch prosesau nes y byddwch yn eu rhoi ar waith.

Fel y soniwyd yn flaenorol, cam cyntaf sicrhau bod unrhyw gynllun yn effeithiol yw gwneud yn siŵr fod yr unigolion sydd â rolau wedi'u diffinio, neu sy'n debygol o fod yn rhan o weithredu'r cynllun, yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt.

Allwch chi ddim ystyried bod cynllun yn ddibynadwy nes ei fod wedi cael ei roi ar waith i sicrhau ei fod yn gweithio. Felly'r ail gam yw cynnal lefelau uchel o hyder yn y defnydd o'r cynllun, ac fe gyflawnir hyn drwy ei brofi a'i ymarfer yn rheolaidd.

Rydym yn profi ac yn ymarfer cynlluniau er mwyn:

- › Profi gweithdrefnau sydd wedi'u hen sefydlu;
- › Datblygu cymwyseddau staff a rhoi cyfle iddynt ymarfer cyflawni eu rolau yn y cynlluniau; a
- › Dilysu'r cynllun.

Yn dibynnu ar faint eich busnes, mae nifer o ffyrdd o brofi neu ymarfer eich cynllun, a dyma rai enghreifftiau:

Ymarferion wedi'u seilio ar drafodaeth – dyma'r ymarferion hawddaf i'w trefnu a'r rhai sy'n cymryd y lleiaf o amser. Maent yn gadael i chi ddarllen drwy'r cynllun fel grŵp, gan nodi unrhyw broblemau gyda'r cynllun ei hun neu'r prosesau. Mae hefyd yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth o'r cynllun.

Ymarferion senario – mae'r math yma o ymarferion eto wedi'u seilio ar drafodaeth, ond gan ddefnyddio senario perthnasol. Gallant ddilyn y drefn mewn amser go iawn neu neidio o un lle i'r llall o ran amser i brofi'r senario ar wahanol gamau yn yr amhariad. Gelwir y mathau hyn o ymarferion fel arfer yn ymarferion pen bwrdd, ac mae gofyn i'r unigolion sy'n cymryd rhan fod â rhywfaint o wybodaeth am y cynllun a'u rhan nhw ynddo.

Ymarferion byw – gall ymarfer byw amrywio o ymarfer un rhan o'ch cynllun ar raddfa fechan, er enghraifft gwagio'r adeilad neu wirio systemau cyfathrebu, i ymarfer y busnes cyfan ar raddfa lawn. Mae ymarferion byw wedi'u dylunio i gynnwys pawb sy'n debygol o fod yn rhan o'r ymateb. Gallech hefyd ystyried cynnwys unigolion eraill â chysylltiad.

Yn ogystal ag ymarfer a phrofi'ch cynllun, mae'n arfer da sefydlu amserlen adolygu a chynnal ar gyfer y cynllun.

Bydd hyn o fudd i chi sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn berthnasol ac yn barod yn sefydliadol i ymateb o'i roi ar waith. Mae hefyd yn sicrhau y gwneir unrhyw newidiadau o ganlyniad i amhariadau go iawn neu newidiadau a ganfyddir drwy brofi, a bod gwybodaeth bwysig fel rhifau cyswllt wedi'u diweddarau.

RHAGOR O GYNGOR

Er na all yr Awdurdodau Lleol lunio eich trefniadau parhad busnes ar eich rhan, '**chi sy'n adnabod eich busnes orau**', mae Adran 4(1) Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a Rhan 7 Rheoliadau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio Wrth Gefn) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol: *gynnig cyngor a chymorth i unigolion sy'n cyflawni gweithrediadau masnachol ac i gyrrff a mudiadau gwirfoddol, mewn perthynas â rheoli parhad busnes mewn achos o argyfwng (fel y diffinnir gan y Ddeddf).*

Gellir ceisio cyngor pellach gan eich awdurdod lleol perthnasol:

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
<https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/busnes/cymorth-a-thwf-busnes/eich-busnes-paratoi/>
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
<https://www.bridgend.gov.uk/>
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
<https://www.caerphilly.gov.uk/Business/Support,-promotion-and-advice/Business-continuity>
- **Cyngor Dinas Caerdydd**
<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Cynllunio-at-Argyfwng-a-Gwydnwch/Pages/default.aspx>
- **Cyngor Sir Caerfyrddin**
<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethau-cyngor/argyfyngau-a-diogelwch-cymunedol/cynlluniau-argyfwng/#.XXZRmkxFyUk>
- **Cyngor Sir Ceredigion**
<https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/cyngor-yngylch-argyfyngau/rheoli-parhad-busnesau/>
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
<https://www.conwy.gov.uk/cy/Business/Business-Continuity.aspx>
- **Cyngor Sir Ddinbych**
<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/busnes/cyngor-a-chymorth-busnes/parhad-busnes.aspx>
- **Cyngor Sir y Fflint**
<https://www.sirfflnt.gov.uk/cy/Home.aspx>
- **Cyngor Gwynedd**
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Parhad-busnes.aspx>
- **Cyngor Sir Ynys Môn**

<https://www.anglesey.gov.uk/>

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
<https://www.merthyr.gov.uk/resident/crime-safety-emergencies/emergency-planning/business-continuity-advice/>
- **Cyngor Sir Fynwy**
<https://www.monmouthshire.gov.uk/>
- **Cyngor Castell-nedd Port Talbot**
<http://www.jointresilience.co.uk/2453>
- **Cyngor Dinas Casnewydd**
<https://www.newport.gov.uk/en/Council-Democracy/Civil-Contingencies.aspx>
- **Cyngor Sir Penfro**
<https://www.sir-benfro.gov.uk/cynllunio-argyfwng/dilyniant-busnes>
- **Cyngor Sir Powys**
<https://cy.powys.gov.uk/article/4916/Parhad-Busnes>
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/EmergenciesSafetyandCrime/EmergenciesSafetyandCrime.aspx>
- **Cyngor Abertawe**
<https://www.abertawe.gov.uk/CynllunioParhadBusnes>
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
<https://www.torfaen.gov.uk/cy/CrimeEmergencies/EmergencyManagement/Civilemergencies-businesscontinuityadvice/Business-Continuity.aspx>
- **Cyngor Bro Morgannwg**
<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Civil-Protection/Business-Continuity.aspx>
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
https://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/emergency_planning/emergency_planning_documents.htm

Yn ogystal â'r llyfryn hwn, mae Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl Awdurdodau Lleol Cymru wedi cyhoeddi 'Templed Hunanasesu' i'ch helpu i nodi'r materion y mae angen i chi eu hystyried er mwyn paratoi ar gyfer argyfwng allai amharu ar eich busnes chi.



CYNLLUNIO PARHAD BUSNES

Ydych chi'n barod nawr?

